

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, a rhannol gyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u darparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Roedd y gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, yn enwedig o ran ei ymgysylltiad â'r gymuned leol, a'r ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau y mae'n eu cynnig. Fodd bynnag, siomedig yw'r penderfyniad i gwtogi ar y gyllideb deunyddiau; er bod cynllunio gofalus yn amlwg ar ddyrannu'r cronfeydd sydd ar gael, mae hyn wedi effeithio ar berfformiad yn erbyn y safonau, ac os bydd yn parhau gallai gael effaith negyddol yn y blynyddoedd i ddod. Nodir hefyd yr ailstrwythuro ar staff sydd ar y gweill, a bydd yr adrodd ar ganlyniadau hyn yn dechrau yn 2018-19.

- Mae pob man gwasanaeth yn cynnig ystod gyflawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac ar gyfer iechyd a lles. Cyflwynwyd pedair astudiaeth achos sy'n dangos effaith gadarnhaol y gwasanaeth ar unigolion yn y gymuned.
- Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol ill dau wedi codi, er bod perfformiad yn dal yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru.
- Parhau'n uchel y mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell, gan adlewyrchu ansawdd ac amrywiaeth yr hyn sydd gan y gwasanaeth i'w cynnig. Mae lefelau defnydd, o ran ymwelwyr corfforol, a nifer aelodau'r llyfrgell a nifer y benthycwyr gweithredol, hefyd wedi cynyddu.
- Yn sgil gostyngiadau yn y gyllideb deunyddiau, nid yw targed y derbyniadau cyffredinol wedi'i gyrraedd bellach. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cynllunio gofalus i wneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael, a chlustnodwyd cyllideb ceisiadau yn llwyddiannus i helpu i sicrhau bod DA 12 yn dal i gael ei gyflawni.
- Bu ychydig o ostyngiad yn nifer y staff cyffredinol yn 2017-18; mae effaith lawn yr ailstrwythuro ar staff eto i'w weld, gyda chynnydd yn y nifer o staff cymwysedig yn llenwi swyddi lle nodir bod eu cymhwyster yn ategol i'w profiad a'u sgiliau.
- Mae cyfanswm y gwariant referniw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, gyda'r gwariant fesul pen y boblogaeth yn is na'r canolrif.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac mae Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn rhannol gyflawni un. Bydd hawl graidd 12 wedi'i chyflawni'n llawn unwaith y bydd Strategaeth y Llyfrgell wedi'i chadarnhau a'i chyhoeddi ar-lein. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwmo i gefnogi dysgu, datblygu, llythrennedd a lles ac mae hyn yn sail i ffocws y gweithgarwch a gynllunnir trwy gydol y flwyddyn. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu staff a gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a darparu gwasanaethau, ac mae'r gwasanaeth ei hun yn bartner arweiniol i'r cynllun rhanbarthol Books4U.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni dau.

Dangosydd Ansawdd		Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae newid bychan ers blwyddyn olaf y pumed fframwaith, gan nad yw'r targed ar gyfer gwariant ar ddeunyddiau fesul pen y boblogaeth (DA 9) bellach yn cael ei gyflawni.

### 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nododd Pen-y-bont ar Ogwr bod arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ar y gweill ar gyfer Tachwedd 2018, ac arolwg plant ar gyfer mis Mawrth 2020.

Dangosydd perfformiad	Safe	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth				
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	99%	2/17	75%	98%

Gofynnwyd i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Pen-y-bont ar Ogwr bedair astudiaeth achos cynhwysfawr, a oedd yn disgrifio'r canlynol:

- Cymorth Dementia – rhaglen ar y cyd â'r Ganolfan Hamdden ar gyfer pobl sy'n dioddef o ddementia a'u gofalu; ar ôl sesiwn nofio ceir lluniaeth ysgafn a gweithgareddau crefft dan arweiniad staff y llyfrgell, gan gynnwys creu 'llyfr atgofion' (llyfr lloffion personol). Caiff y gofaluwr gefnogaeth ac mae dioddefwyr dementia wedi adennill hyder a gwella eu sgiliau cyfathrebu/cymdeithasol.
- Gwella Llythrennedd – partneriaeth gydag ysgol leol i weithio gyda disgyblion penodol i'w cefnogi i ymgysylltu â storïau ac adrodd straeon. Roedd sesiynau ysgrifennu creadigol wedi arwain at greu animeiddiad syml. Datblygodd y plant sgiliau newydd, ac

roeddynt wedi mynd ati'n gadarnhaol i ddarllen, ac ymgysylltu â'r llyfrgell a'i staff.

- Cymorth Cyflogaeth – cynllun profiad gwaith wedi'i sefydlu gyda Chanolfannau Gwaith lleol ar gyfer Lleoliadau Gwaith Digidol i gefnogi defnyddwyr y llyfrgell i ymgysylltu ag adnoddau digidol. Ers hynny, mae sawl cyfranogwr wedi cael gwaith, un o fewn y sector llyfrgell.
- Mannau Diogel – mae staff llyfrgell yn cefnogi ystod o weithgareddau i blant, gan gynnwys sesiynau 'Codio a Chreu' *Makerspace*, 'clwb ieuenctid' anffurfiol ddydd Gwener a Chlwb Garddio tymhorol – mae plant a theuluoedd yn teimlo bod y llyfrgell yn 'lle iddyn nhw' a'r clybiau yn cefnogi dysgu cymdeithasol ac yn cael pobl iau i ymgysylltu â'r llyfrgell.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	23%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	34%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	97%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	9.0
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	22	16/22	10	32	238	19
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	75	20/22	15	199	473	60
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	520	3/22	82	228	684	489
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	2,909	18/22	2,501	4,047	7,014	2,753
b) rhith-ymweliadau fesul pen	490	16/22	243	866	2,211	851
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	177	7/22	100	154	229	162
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen*	60	13/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
b) cyfrifiaduron fesul pen <sup>^</sup>	10	11/22	5	9	14	10
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	22%	16/22	14%	27%	67%	24%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	18	16/21	3	31	196	14
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	1,018	14/21	40	1,346	11,939	903
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£10,014	16/21	£7,047	£11,915	£17,771	£10,588
b) % ar staff	71%	5/21	44%	63%	75%	72%
% ar adnoddau gwybodaeth	16%	5/21	4%	13%	25%	17%
% ar offer ac adeiladau	4%	10/21	0%	4%	20%	1%
% ar gostau gweithredol eraill;	9%	18/21	0%	18%	37%	10%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£126	13/20	£0	£338	£17,432	£209
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£2.29	3/21	£1.24	£1.82	£2.41	£2.72
DA 16 Oriau agor <sup>#</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.00%

\* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

<sup>^</sup> am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

<sup>#</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau)

### 3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

#### 3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Pen-y-bont ar Ogwr eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr; maent wedi'u cynllunio ar gyfer Tachwedd 2018 (oedolion), a Mawrth 2020 (plant). Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda i iechyd a lles, gyda gwelliannau yn y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi ffurfiol ac yn y nifer sy'n cael eu helpu gan hyfforddiant anffurfiol. Nodir bod y bartneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf i drefnu cymorth TG wedi bod yn llwyddiant, er bod perfformiad cyffredinol yn ymwneud â hyfforddiant defnyddwyr yn dal yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru.

#### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Gan fod rhaglen weithgareddau eang ar gael, mae'r nifer sy'n mynychu wedi parhau i gynyddu, ac mae perfformiad y gwasanaeth yn parhau i fod y trydydd uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd ymhlith y saith gwasanaeth llyfrgell i gofnodi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, ac mae nifer y benthyccwyr gweithredol ac aelodau'r llyfrgell hefyd wedi codi ers 2016-17. Cafwyd gostyngiad yn nifer y rhith-ymweliadau, a hyn yn cael ei briodoli i symud i wefan

annibynnol. Gostwng hefyd fu hanes benthyciadau llyfrau, gyda'r perfformiad yn hyn o beth yn is na'r canolrif.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)**

Gwnaed y penderfyniad i leihau'r gronfa lyfrau yn 2017-18 ac mae hyn yn anochel wedi effeithio ar berfformiad, a bellach nid yw'r targed wedi'i gyrraedd ar gyfer derbyniadau fesul pen y boblogaeth. Gwelir bod ystyriaeth ofalus wedi'i rhoi i oblygiadau'r gostyngiad hwn ar ddefnyddwyr, gyda'r gwariant llai ar stoc plant yn adlewyrchu buddsoddiad trwm mewn blynyddoedd blaenorol, ac aethpwyd ati'n fwy ystyriol wrth ddewis teitlau ffeithiol oedolion. Mae buddsoddiad cymesur mewn deunyddiau Cymraeg wedi cynyddu ychydig, ond mae'n dal i fod yn is na'r lefelau targed. Mae darpariaeth y cyfrifiaduron wedi aros ar lefelau 2016-17, a rhaglen gyfnewid ar y gweill i sicrhau bod y seilwaith TG yn addas at y diben. Mae lefelau'r defnydd ar y rhain wedi gostwng, fodd bynnag, fel ym mhrofiad awdurdodau eraill, ac mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i gynnydd mewn lefelau llythrennedd TG. Mae perfformiad mewn perthynas â chyflenwi ceisiadau wedi gwella, a'r ddau darged wedi'u cyflawni, a hyn yn adlewyrchu'n dda ar y penderfyniad i glustnodi'r gyllideb ceisiadau.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)**

Mae nifer y staff cyffredinol wedi gostwng ychydig yn 2017-18, a nodir y bydd effaith yr ailstrwythuro ar staff i'w weld yn ail flwyddyn y fframwaith. Ni chyflawnir y targed ar gyfer staff cyffredinol fesul pen y boblogaeth, er bod y cofnod am nifer y staff â chymwysterau priodol yn golygu bod y gofyniad hwn wedi'i gyflawni. Yn wir mae cyfanswm y staff a nodwyd i fod â chymwysterau cydnabyddedig wedi cynyddu, gan fod ffocws wrth recriwtio ar sgiliau ac arbenigedd sy'n cefnogi anghenion y gymuned, er mai dim ond un swydd (o'i gymharu â 10 yn y flwyddyn flaenorol) sydd wedi'i nodi'n benodol i fod angen deiliad cymwysedig. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi buddsoddi'n drwm mewn hyfforddiant / datblygiad staff yn 2017-18, un o ddau awdurdod yn unig i fodloni'r gofynion ar lefel mor uchel. Cynyddodd Pen-y-bont ar Ogwr hefyd ei ddefnydd ar wirfoddolwyr, gan fod â chyfanswm o 18 ohonynt yn darparu cyfartaledd o bron i 57 awr yr un.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, gyda'r gwariant fesul pen y boblogaeth yn is na'r canolrif. Fodd bynnag, mae cyfanswm nifer yr oriau agor blynyddol ar y cyfan wedi cael eu cynnal, gyda'r cyfartaledd fesul pen yn dal i fod yr uchaf yng Nghymru. Ni chofnodwyd unrhyw oriau agor heb staff, na chau gwasanaethau heb gynllunio gwneud hynny, na methu arosfannau llyfrgell deithiol, ac mae cynlluniau ar droed i ymestyn y gwasanaeth danfon i'r cartref yn 2018-19.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau adrodd sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nodir bod prwpas yr Ymddiriedolaeth, sef 'Gwneud bywyd yn well i bobl', yn cyd-fynd â themâu nifer o strategaethau Llywodraeth Cymru. Rhoddir enghreifftiau penodol o sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol: Ffyniannus a Diogel, gan gefnogi'r agenda digidol; Iach ac Egniol, trwy gasgliadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles; Uchelgais a Dysgu, sef galluogi dysgu cymunedol, a hybu'r defnydd o'r Gymraeg; ac Unedig a Chysylltiedig, sef darparu gwasanaethau a chyfleusterau hygyrch a chynhwysol sy'n dod â chymunedau at ei gilydd.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn i ddod, nodir bod gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Llyfrgell Pum Mlynedd (2017-2022), a'r blaenoriaethau strategol ynddo yn canolbwyntio ar ddatblygu manau llyfrgell newydd, llythrennedd plant, yr agenda sgiliau digidol, a gwella lles. Nodir bod parhau i fuddsoddi mewn manau llyfrgell yn ganolog i gyflawni'r strategaeth, gyda chynlluniau i ailddatblygu rhai safleoedd, ac archwilio opsiynau ar gyfer cydleoli. Bwriada'r gwasanaeth ychwanegu at ei raglen o weithgareddau llwyddiannus i blant, ac mae buddsoddi mewn datblygiad staff wedi'i nodi fel rhan annatod o'r darparu gwasanaeth yn hyn o beth, yn ogystal â chefnogi arlwy digidol y gwasanaeth a gweithio ar les. Mae partneriaethau, gydag asiantaethau'r llywodraeth a rhai lleol, hefyd wedi'u nodi i fod yn rhai allweddol i weithredu'n llwyddiannus.

## 6 Casgliad

Mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi'u darparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen ar ran yr awdurdod lleol. Roedd y gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, yn enwedig o ran ei ymgysylltiad â'r gymuned leol, a'r ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau y mae'n eu cynnig. Fodd bynnag, siomedig yw'r penderfyniad i gwtogi ar y gyllideb deunyddiau; er bod cynllunio gofalus yn amlwg ar ddyrannu'r cronfeydd sydd ar gael, mae hyn wedi effeithio ar berfformiad yn erbyn y safonau, ac os bydd yn parhau gallai gael effaith negyddol yn y blynyddoedd i ddod. Nodir hefyd yr ailstrwythuro ar staff sydd ar y gweill, a bydd yr adrodd ar ganlyniadau hyn yn dechrau yn 2018-19.